CYNGOR CYMUNED LLANFAIR DYFFRYN CLWYD COMMUNITY COUNCIL
www.llanfaircommunityCouncil.co.uk

Cofnodion cyfarfod cyffredin y Cyngor a gynhaliwyd yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun, nos Lun, 5 Mehefin 2023 am 7:30pm.

PRESENNOL – Y Cynghorwyr Jayne Mayers [Cadeirydd], Keith Moulsdale [Is-gadeirydd], Eilir Jones, Osian Owen, Simon Knight-Saunders, David Baker a Ceri Ranson ynghyd â'r Clerc, Sian E Thomas a'r Cynghorydd Sir Hugh Evans.

Rhan 1

Dechreuodd y cyfarfod am 7:30pm.

1027. Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

1028. **Ymddiheuriadau** – derbyniwyd ymddiheuriadau gan y Cynghorwyr Owen Evans a Shaun Williams.

1029. **Datgan buddiannau.** Ni chafwyd unrhyw ddatganiad o fuddiant.

1030. **Sesiwn Cyfranogiad y Cyhoedd**, nid oedd unrhyw un o'r cyhoedd yn bresennol.

1031. **Cytuno ar a llofnodi cofnodion y Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd ym mis Mai**
Gwnaeth y Cyngor ystyried y cofnodion a chytuno eu bod yn gofnodion cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

1032. **Materion yn codi o'r cofnodion:**

i. Mae'r Clerc wedi talu'r taliad yswiriant am y flwyddyn.
ii. Mae dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor yn y dyfodol wedi'u nodi ar y wefan.
iii. Mae'r Clerc wedi ymchwilio i hysbysfwrdd potensial i'r Cyngor ei brynu. **Penderfynwyd:** Peidio â phrynu un ar hyn o bryd ond yn hytrach i symud yr un yn Llanfair o'r hen ysgol i'r ysgol newydd ar ôl cael caniatâd.
iv. Mae'r Clerc wedi dod o hyd i fainc addas i'w phrynu ar gyfer cysgodfan bws Graigfechan Premium Backless Benches (recycledfurniture.co.uk)
v. Mae'r Clerc wedi anfon neges e-bost yn cynnwys cynlluniau'r cae chwarae i Ysgol Llanfair ac Ysgol Pentrecelyn. Maent yn mynd i ymateb ar ôl y gwyliau hanner tymor. **Gweithred:** Y Clerc i anfon cop ii Grŵp Anabledd Sir Ddinbych.
vi. Mae'r Clerc wedi cyflwyno cais am grant i Ymddiriedolaeth Fitzwilliam i ddechrau ar y gwaith cytunedig ar y cae chwarae. Ni dderbyniwyd ymateb hyd yma.

vii. Mae'r Clerc wedi cysylltu gyda Ben Wilcox Jones yng Nghyngor Sir Ddinbych ynghylch y rhwystr diogelwch yng Nghae Mair. Ni chafwyd ateb hyd yma. **Gweithred**: Y Clerc i gysylltu eto.

viii. Derbyniwyd ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych ynghylch goryrru drwy Graigfechan pan oedd ffordd Nant y Garth ar gau:
Mae'r Cyngor Sir yn awyddus iawn i sicrhau amgylchedd diogel i holl ddefnyddwyr y ffordd ble bynnag y bo'n bosibl. Mae'r rhwydwaith ffyrdd yn bodoli i hwyluso cerbydau modur i symud yn ddiogel, yn effeithiol ac yn effeithlon, wedi'i gydbwyso yn erbyn anghenion defnyddwyr trafnidiaeth eraill a defnyddwyr eraill. Yn anffodus mae rhai gyrwyr yn dewis anwybyddu Rheolau'r Ffordd Fawr a gyrru'n anghyfrifol. Fel y gwyddoch, mae'r ffordd drwy Graigfechan yn un Terfyn Cyflymder Cenedlaethol cyn newid i gyfyngiad 30 milltir yr awr. Efallai eich bod yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno terfyn cyflymder 20 milltir yr awr ar ffyrdd cyfyngedig ledled Cymru (mae ffyrdd cyfyngedig yn cynnwys rhai â goleuadau stryd wedi'u lleoli heb fod yn fwy na 200 llath oddi wrth ei gilydd. Yn arferol maent wedi'u lleoli mewn ardaloedd preswyl ac adeiledig lle mae llawer o gerddwyr). Y gobaith yw y bydd lleihau'r terfyn cyflymder o 30mya i 20mya drwy Graigfechan yn gostwng cyflymder y cerbydau'n teithio drwy Graigfechan. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cyfyngu ar ddefnyddwyr y ffordd sy'n dewis peidio â chadw at Reolau'r Ffordd Fawr. Os ydych chi'n parhau i weld gyrru peryglus/goryrru yna cysylltwch â'r tîm Heddlu lleol, gan mai'r Heddlu yw'r asiantaeth sy'n gyfrifol am orfodaeth y math yma o faterion yn Sir Ddinbych. Yn ychwanegol, medrwn gysylltu â'r Bartneriaeth Gan Bwyll i'n helpu i orfodi'r gyfraith yn yr ardal hon os cyfyd problemau yn y dyfodol.

1033. **Cynlluniau Hyfforddiant Cyngorwyr**

Mae'n orfodol i'r Cyngor gael cynllun hyfforddiant i bob un o'i Gynghorwyr. **Gweithred:** Y Clerc i astudio'r cynllun i weld a oes unrhyw fylchau.

1034. **Cae Chwarae Llanfair DC**

i. Cynlluniau Offer Chwarae

Mae'r cynlluniau a dderbyniwyd yn mynd i gael eu rhoi ar y wefan. **Gweithred:** Y Clerc i wneud hyn.
Mae'r Cadeirydd wedi siarad â chynrychiolydd y Loteri Genedlaethol ac fe'i hysbyswyd fod y Cyngor Cymuned angen cael cynllun pensaer o'r offer sy'n ofynnol ac yna fynd i dendr am yr offer. **Gweithredoedd**: Y Clerc i wneud cais am grant £10,000 Gwobrau i Bawb gan y Loteri Genedlaethol i ddechrau'r prosiect. Yna gellir cyflwyno cais am grant arall i gyllido gweddill y gwaith. Y Clerc i gysylltu â phensaer tirlunio i ofyn am gynllun o'r cae er mwyn ychwanegu'r offer yn ddiweddarach i'r pensaer lunio'r cynllun terfynol.

Cyflwynodd y Cynghorydd Moulsdale adborth o Ddiwrnod Mabolgampau Llanfair, lle'r oedd y cynlluniau gan wahanol gwmnïau offer chwarae i'w gweld er mwyn i'r gymuned roi eu sylwadau. Roedd pob elfen o'r gymuned yn gadarnhaol iawn am y cynlluniau ac yn awyddus i weld y prosiect yn dechrau. Gwnaeth cyfanswm o 64 o bobl ymateb i'r cynlluniau, gyda 61 o'r sylwadau'n bositif a'r tri arall yn gwneud argymhellion adeiladol. Ni chafwyd unrhyw ymatebion negyddol. Mae'r adborth llawn o'r digwyddiad ar wefan y Cyngor.
Gweithred: Sefydlu Grŵp Llywio i benderfynu pa offer y dylid gofyn am dendrau ar eu cyfer. Aelodau'r Grŵp Llywio fydd y Cynghorwyr Ceri Ranson, Osian Owen ac Eilir Jones, ynghyd â'r Clerc.

ii. Cyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych
Cynhaliwyd cyfarfod gyda Chyngor Sir Ddinbych a Grŵp Cynefin ar 26 Mai ynghylch yr hen ysgol a'r elusendai. Hysbyswyd y Cyngor Cymuned y bydd y ddau eiddo yn cael eu rhoi ar y farchnad yn fuan. Hysbyswyd y Cyngor Cymuned hefyd fod y dogfennau'n barod o ran dadgofrestru'r Elusendai o un elusen a sefydlu elusen newydd i gynnwys isafswm o un cynrychiolydd o Grŵp Cynefin, Cyngor Sir Ddinbych a'r Cyngor Cymuned. Mae Grŵp Cynefin yn aros am gyfarwyddiadau cyfreithwyr ac mae wedi talu'n llawn am y gwaith cyfreithiol. Bydd yr elusen newydd yn gweithio er budd y gymuned leol.

iii. Arolwg Coed
Cynhaliwyd arolwg cynhwysfawr ar y coed a dosbarthwyd yr adroddiad i'r holl Gynghorwyr. Gofynnwyd am ddyfynbris gan arbenigwr coed i gyflawni'r gwaith brys. Bwriedir gofyn am ganiatâd cynllunio gan Gyngor Sir Ddinbych er mwyn cynnal y gwaith hwn. Nodwyd fod y goeden ffawydden mewn cyflwr iach.
Gweithred: Y Clerc i gyflwyno cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer y gwaith sy'n ofynnol ar y coed a gofyn i arbenigwr trin coed am ddyfynbris i dorri ymaith y coed y mae'r Cyngor Cymuned wedi cael caniatâd cynllunio i'w torri eisoes.

iv. Grantiau
Yn anffodus nid oedd y Cyngor Cymuned yn llwyddiannus yn ei gais am Grant Llywodraethu Democrataidd. Bwriedir gwneud cais am grantiau eraill i brynu offer fideo gynadledda.

1035. **Materion Priffyrdd a'r Amgylchedd**

i. Pryderon am oryrru
Mynegwyd pryder nad yw'r terfyn cyflymder 40 milltir yr awr ar Fwlch Nant y Garth yn ymestyn y tu hwnt i Goleg Llysfasi.
Gweithred: Y Clerc i gysylltu â Darren Millar ynghylch y problemau goryrru yn yr ardal.

ii. Nodwyd fod y llwybr rhwng Llanfair DC a Rhuthun yn gul oherwydd bod y gwrych wedi gordyfu. **Gweithred:** Y Clerc i gysylltu â Chyngor Sir Ddinbych i ofyn, pan fydd yn torri'r gwrych

i'w dorri'n dda a mynd â'r holl ddarnau wedi'u torri ymaith. Y Clerc i hysbysu Cyngor Sir Ddinbych hefyd fod y gweledegdd wrth groesffordd Llysfasi yn wael, a bod hynny'n wir am gyffordd Lôn Jerico gyda'r A525 a gofyn i'r swyddogion ystyried diogelwch y cyffyrdd wrth reoli ymylon y ffyrdd.

1036. **Materion Cyllid**

i. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol ddiweddariad ar y sefyllfa bancio a'r tasgau ariannol.

ii. Cyflwynodd y Swyddog Ariannol Cyfrifol Restr Taliadau mis Mai 2023 a chytunwyd ar yr holl.

Dyddiad	I	Swm	Sylwadau
04/05/2023	Sandra Williams	£163.20	Cyfieithu
16/05/2023	AVOW	£766.45	Cyflogres mis Mai 2023
17/05/2023	Un Llais Cymru	£76.00	Hyfforddiant i Gynghorwyr
17/05/2023	Trosglwyddiad i'r cyfrif adneuo	£30,000.00	Trosglwyddiad
17/05/2023	Zurich	£668.80	Yswiriant 2023-4
21/05/2023	HSBC	£5.00	Ffi bancio mis Ebrill 2023
30/05/2023	Marc Murphy	£400.00	Ffi arolwg coed
		£32,079.45	

iii. Archwiliad Mewnol.
Roedd y Clerc wedi llenwi'r Adroddiad Blynyddol i'w gyflwyno i'r archwilydd mewnol. Cytunwyd arno gan y Cyngor a'i lofnodi'n briodol gan y Cadeirydd. Bydd y Clerc yn uwchlwytho'r holl ddogfennau i'r archwilydd yn awr drwy'r porth.

iv. Derbyniwyd cais am gyllid gan Ysgol Llanfair ar gyfer offer chwarae awyr agored. **Penderfynwyd**: gwneud cyfraniad o £250. **Gweithred:** Y Clerc i dalu'r £250.

v. Derbyniwyd cais am gyllid gan Gapel Salem. **Penderfynwyd**: gwneud cyfraniad o £250. **Gweithred:** Y Clerc i dalu'r £250.

1037. **Materion Cynllunio**. Derbyniwyd cais cynllunio yn ymwneud â:

i. The Barn, Pentre Coch

Penderfynwyd: nad oedd unrhyw wrthwynebiad i'r cais.

1038. **Gohebiaeth i'w adolygu**

i. **Y Cynllun Datblygu Lleol.** Mae'r Cynghorwyr yn edrych ar y cynlluniau a byddant yn eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ym mis Gorffennaf.

1039. **Eitemau y tynnwyd sylw Cynghorwyr atynt**

i. Crybwyllwyd fod Pennaeth Ysgol Llanfair yn symud i ysgol arall. **Gweithred:** Y Clerc i anfon neges e-bost ati yn ei llongyfarch.
ii. Dywedodd y Cynghorydd Moulsdale fod Diwrnod Mabolgampau Llanfair wedi gwneud elw o £1,700.

1040. Cytunwyd y cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ar 3 Gorffennaf yng Ngholeg Llysfasi am 7:30pm.

Gorffennodd y cyfarfod am 9:00pm.

CADEIRYDD DYDDIAD